Clust i wrando

Dyfalbarhad / goddefgarwch

Yn y Beibl, yn Efengyl Luc, mae dameg am y Samariad Trugarog. Rwy'n siŵr eich bod yn cofio'r ddameg. Roedd gŵr ar ei ffordd o Jerwsalem i Jericho. Ffordd beryglus iawn oedd hon. Byddai lladron yn ymosod ar y teithwyr. Ac felly y bu. Ymosodwyd ar y teithiwr. Daeth offeiriad heibio ond wnaeth o ddim helpu'r teithiwr. Daeth Lefiad heibio ond gwrthod helpu wnaeth yntau hefyd. O'r diwedd daeth gŵr o Samaria heibio. Fe welodd o'r teithiwr ac fe'i helpodd. Erbyn heddiw, mae yna fudiad o'r enw 'Y Samariaid'. Pobl ydi'r rhain sy'n barod i wrando a helpu pobl eraill. Dyma stori am y gŵr a gychwynnodd fudiad y Samariaid.

Chad Varah: 1911–

Offeiriad yn Eglwys Loegr oedd Chad Varah. Roedd yn ficer ar eglwys ar gyrion Llundain. Roedd wrth ei fodd yn gweithio gyda'i bobl yn Battersea ond daeth llythyr iddo gan yr Esgob. Yn y llythyr roedd yr Esgob yn ei wahodd i fod yn ficer ar eglwys Stephen Walbrook. Doedd o ddim yn sicr iawn beth i'w wneud. Roedd o mor hapus efo'r bobl yn Battersea. Ond ar ôl meddwl yn ofalus, mynd wnaeth o. Ond yr wythnos cyn iddo fynd, bu farw merch ifanc ddeunaw oed. Roedd hi wedi cyflawni hunan-laddiad. Roedd hwn yn mynd i fod yn angladd trist iawn. Bu Chad Varah yn holi'r teulu. Beth oedd wedi digwydd? Pam oedd hi wedi ei lladd ei hun? Ond doedd neb yn gallu ateb y cwestiynau. Roedd llawer o bobl yn dweud y byddai wedi byw petai wedi cael rhywun i wrando arni.

Roedd Chad Varah yn bendant beth fyddai'n ei wneud yn ei eglwys newydd. Byddai drws yr eglwys yn agored bob dydd. Byddai aelodau'r eglwys yno bob awr o'r dydd i wrando ac i geisio helpu pobl yr ardal. Mynnodd gael ffôn yn ei swyddfa yn yr eglwys. Rhoddodd hysbyseb yn y papur lleol yn gwahodd pobl unig i gysylltu ag ef ar y ffôn neu ddod i'w weld i'r eglwys. Yn ystod yr wythnos gyntaf un fe gysylltodd saith ar hugain o bobl. Yn eu plith roedd merch ifanc yr un oed â'r ferch a fu farw. Roedd hi'n welw ac yn denau a dillad carpiog amdani.

"Dewch i mewn i'r swyddfa," meddai Chad Varah, "Eisteddwch." Roedd y ferch ifanc yn crynu. Yn araf, dechreuodd

ddweud ei stori. O'r diwrnod cyntaf roedd wedi mynd i'r ysgol roedd wedi cael ei bwlio. Trwy'r ysgol gynradd roedd y plant i gyd yn gas efo hi. Fe ddigwyddodd yr un peth yn yr ysgol uwchradd hefyd.

Ar ôl iddi adael yr ysgol, fe ddechreuodd chwilio am waith. Ond doedd yna ddim gwaith i'w gael. Doedd ganddi neb i droi ato. Ond yn swyddfa'r eglwys y bore hwnnw fe gafodd glust. Gwrandawodd Chad Varah arni ac ymhen rhai wythnosau roedd wedi llwyddo i gael gwaith iddi.

Roedd y gwaith o wrando a chynghori yn digwydd ddydd a nos yn yr eglwys. Roedd pawb oedd yn dod i mewn i'r eglwys am gyngor yn teimlo'n well wrth fynd allan. Felly, yn yr eglwys hon yn Llundain y ganed Cymdeithas y Samariaid. Erbyn heddiw, mae yna ganolfannau i'r Samariaid trwy wledydd Prydain i gyd.

"O Dduw, tro dy glust ataf, gwrando fy ngeiriau."
Salm 17:6

O Dduw,
rydw i yn ei chael hi'n anodd iawn i wrando.
Fedra i ddim gwrando ar fy rhieni,
fedra i ddim gwrando ar fy athrawon,
fedra i ddim gwrando ar fy ffrindiau,
fedra i ddim gwrando ar neb na dim.
Helpa fi i ddysgu gwrando ar eraill,
ar bawb.
Amen.

Pa mor hawdd ydi dysgu "gwrando" ar bobl eraill?
Oes yna bwrpas mewn gwrando?

Chad Varah : 1911-